

# Hances Eisteddfod Genedlaethol Pontypridd

**G**alw heibio i siop nwyddau tramor a hen greiriau ym Môn, o bryd i'w gilydd. Eithr pan glywais fod y perchennog wedi mynd at ei dadau, a'r siop a'i chyunwys ar werth, penderfynais bicio draw am y tro olaf, rhag bod bargeinion i'w cael.

Pan gyrhaeddais, yr oedd teulu'r siop mewn byd, gan i dŵr llifogydd difrifol yr wythnos flaenorol godi trwy lawr yr adeilad, ac ymdreiddio i'r carpedi dwyreiniol a gweddill y stoc. Wrth achub y nwyddau, daeth anghofiedig bethau i'r amlwg; ac yn eu plith, hances boeced. 'Doedd neb yno wedi gweld un tebyg iddi erioed, nac yehwaith yn deall ei harwyddocâd, felly fe'i rhoddwyd ar silff o'r neilltu. Hap a damwain oedd imi sylwi arni: ond o'i gweld, fe'i prynais.

Nid fy mod yn brin o hancesi. I'r gwrthwyneb, y maent yn ewna yma, diolch i gyfeillion a pherthnasau hael a gofiodd ei bod yn benblwydd arnaf, neu'n Nadolig, droeon yn y gorffennol. Ond y mae hon yn fwy nag offer chwythu trwyn: y mae megis baner gwladgarweh, dogfen hanesyddol, maes yr awen a hysbyseb masnachol.

Un wen yw hi eto, ac arni luniau a geiriau wedi eu hargraffu mewn inc llwyd tywyll. Yn ei chanol, ceir lun gron yn dangos tyrfa yn gwyllo corfflogiad y Dr William Price ym Mhontypridd ym 1893, a'r geiriau "The Cremation of Dr Price, Jan'y 31st 1893." Rhag i neb fethu â deall pa Dr Price aeth drwy'r tân, ceir darlun ohono ar y dde i'r llun, yn ei holl ysblander derwyddawl, ei groen llwynog am ei ben, ffagl yn ei ddeheulaw ddyrchafedig, a'i gleddyf am ei glun.

Ogylch y darlun canolog, ceir pedwar llun arall. Uwchben, llun o'r bont ym Mhontypridd, a'r ymadrodd "1893. Eisteddfod A\ Genedlaethol. Pontypridd". Ar ochr dde'r hances, llun gwraig mewn gwisg Gymreig, a'i henw Gwen Llewellyn: un o "wragedd" y Derwydd, efallai. Ar y llaw chwith, llun dau blentyn y Dr Price, Penelope (a fu farw yn 1976) a'i fab Iesu Grist, corfflogiad yr hwn a achosodd y fath ffrwgwd ym 1884, er'adur bach. Ar y gwaelod, ceir llun cylch cerrig, a'r enw Careg [sic] Siglo.

Rhwng y pedwar darlun ceir ffrwyth dawn rhyw brydydd anhysbys imi, sef y pedair pennill canlynol:

*Llwydd, Llwydd, Eisteddfod lawen,  
Ein haruchelaf Wyl;  
lanw Cân ac Awen  
Mae Cymru'n codi hwyl.*

*Llu y Bynniau [sic] a thrigolion  
Cymoedd Rhondda, Glannau'r Da'r.  
Os am dillad rhataf, goraf,  
Trowch at Jones y Market Sgwâr.*

*Henffych well, fy hoff gydwladwyr;  
Ydwyf gadach gwyn a fydd  
Yn arosol goffadwriaeth  
Am Eisteddfod Pontypridd.*

*Arnaf cewch yn argraphedig  
Ryfeddodau mawr eu bri,  
Ond eu coron fyth gofiedig  
Yw Eisteddfod '93.*

Ac ar waelod yr hances, yr ymadrodd canlynol:

**JONES & CO.**  
DRAPERS & OUTFITTERS  
MARKET SQUARE,  
6, CHURCH ST. & ARCADE,  
PONTYPRIDD.

Ni wn i ddim am y masnachwr uchod, ond ei fod wedi gweld cyfle i archebu cofrodd a fyddai'n atgoffa'r prynwr am ymweliad â gwyl ddiwylliannol fawr, digwyddiadau cyffrous y mis Ionawr blaenorol (corfflogiad Price oedd un cyfreithlon cyntaf y Gymru gyfoes), a'r nwyddau rhagorol oedd ar gael ym masnachfeydd Pontypridd.

Nid anghyffredin hynny: argraffwyd llawer iawn o hancesi o'r fath o'r ddeunawfed ganrif hyd ddechrau'r ugeinfed, yn darlunio brwydrau, etholiadau, arwyr, sgandalau, rasmus ceffylau ac yn y blaen. Y mae un wraig yn ne Lloegr wedi casglu dros 2,500 ohonynt.

Pam argraffu hancesi? Oherwydd fod hances yn wrthrych o bwys, i'w chwifio a'i harddangos yn gyhoeddus. Yn yr unfed a'r ail ganrif ar



bymtheg, yr oedd ei defnydd yn gyfyngedig i'r cyfoethog, a'r gwrthrych ei hun yn gynfas fawr o beth, wedi ei haddurno'n wych â gwaith edau, nodwydd a siswrn. Yn y ddeunawfed ganrif, yr oedd dwy hances yn gyfwerth â phâr o esgidiau. Gyda mewnforio nwyddau cotwm o'r India o'r ddeunawfed ganrif ymlaen, gostyngodd pris hancesi, ond parhaodd yr awydd i'w haddurno. Hyd heddiw, parheir i frodio llythrennau cyntaf enw'r perchennog ar hancesi arbennig.

Nid oes awgrym pwy argraffodd y lluniau a'r geiriau. A aeth cwmni Jones at un o argraffwyr Pontypridd, ynteu a roddwyd archeb i gwmni a arbenigai yn y math hwn o beth? Y mae'r gwaith yn ymddangos yn lân, heblaw am "bynniau" yn lle "brynnau", a gosod yr acen grom uwch yr "r" yn "Dar". Awgrym, efallai, nad oedd yr argraffwr yn hollol gyfarwydd â'r Gymraeg.

Ceir y llythrennau "EO" wedi eu hysgrifennu ar y cadach: enw perchennog blaenorol, efallai? Y mae ei hymylon wedi melyn y rhywfaint, a thyllau bychain ynddynt pob ryw ywchydig fodfeddi, fel pe bai wedi ei phinio mewn ffram ar un adeg. Brychau eu beidio, caiff le parchus gennyf, gan na welais dim cyffelyb iddi erioed o'r blaen. Hoffwn ofyn, felly, os yw darllenwyr eraill y "Casglwr" erioed wedi taro ar unrhyw wrthrych tebyg?

HOWARD HUWS.